



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar-lein am 7 y.h. ar Iau y 19^{eg} o Chwefror 2026

Yn Bresennol

Iona Evans Cadeirydd

Shelagh Fishlock Ysgrifennydd

Amanda Skull Trysorydd

Rhisiart ap Gwilym, Duncan Brown, Dafydd Lewis, John Griffith, Gareth Wyn Jones, Hywel Madog Jones, Elen Owen, Gwyn Roberts, Iwan Roberts, Alan Williams a Jackie Willmington (Ysgrifennydd Cofnodion).

1. GAIR O GROESO GAN Y CADEIRYDD

Cynigiodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb gan ddweud ei bod yn falch o weld cymaint yn bresennol.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Eirian Davies, Dawi Griffiths, Eurgain Jones, Rob Jones, Dominig Kervegant ac Elizabeth Roberts.

3. DERBYN COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR GWAITH A GYNHALIWDYD AR 20^{fed} TACHWEDD 2025

Cynigiodd Shelagh Fishlock ac eiliodd Hywel Madog Jones dderbyn cofnodion cyfarfod 20 Tachwedd 2026 fel rhai cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at gais Goronwy Wynne am gymorth wrth gyhoeddi llyfryn yn dathlu 300 mlwyddiant geni Thomas Pennant (gweler cofnodion 20 Tachwedd eitem 12 i). Dywedodd ei bod wedi darparu rhagymadrodd byr. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu £100 at y costau cyhoeddi.
- Dywedodd y Cadeirydd fod Bethan Jones, Cyngor Llyfrau Cymru, yn disgwyl arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol ar gyfer y brosiect "Meithrin Natur" a bydd hi'n cysylltu eto (gweler cofnodion PG 20 Tachwedd 12 ii).

5. ADRODDIADAU'R SWYDDOGION A'R IS-BWYLLGORAU

- Y Trysorydd (Gweler Adroddiadau PG Chwefror 2026)

Tynnodd y Trysorydd sylw ei bod wedi talu'r blaendal ar gyfer Gŵyl y Gororau a byddai'r balans yn ddyledus ar 14 Mawrth.

Soniodd am adnewyddu'r polisi yswiriant gan ddweud nad oedd newidiadau. Trafodwyd yswirio eiddo ac awgrymwyd bod "offer cyfrifiadurol" yn cyfeirio at hen liniadur y cyn-Drysorydd ac nad

oedd rhaid ei gynnwys bellach. Esboniwyd bod y paneli arddangos wedi costio llai na £500 yr un ac felly nad oedd rhaid eu rhestru.

Dywedwyd y byddai angen archebu stondin yn Eisteddfod y Garreg Las mor fuan â phosibl ar ôl 1^{af} Mawrth. Cytunodd y Trysorydd i archebu pabell ddwbl gyda thrydan a dau fwrdd (**pwynt gweithredu**).

ii) Yr Ysgrifennydd Aelodaeth

Dywedodd yr Ysgrifennydd Aelodaeth ei fod wedi datrys problem y debydau uniongyrchol. Esboniodd fod y rhan fwyaf o'r aelodau'n talu drwy DU a bellach mae tâl aelodaeth ddwy flynedd arnynt. Cytunwyd i roi rhybudd i'r aelodau drwy e-bost a thynnu'r ddau daliad ar wahân.

Mynegodd y farn bod Bottomline yn ddrud a awgrymodd chwilio am opsiwn rhatach ar ddiwedd y cytundeb presennol.

Dywedodd fod 600 o danysgrifiadau a nodwyd bob angen anfon y cylchgronau at ychydig o aelodau newydd (**pwnt gweithredu**).

Diolchodd y Cadeirydd i Dafydd am ei holl waith.

iii) Is-bwyllgor Marchnata (gweler Adroddiadau)

Dywedodd Hywel Madog Jones ei fod wedi dechrau trafod trefniadau ar gyfer Eisteddfod y Garreg Las gyda Gareth Wyn Jones a chynhaliwyd un cyfarfod o'r PM gyda'r cofnodion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiadau. Esboniodd y byddai trefn y paneli'n dilyn y patrwm arferol a gofynnodd i Duncan lenwi tri phanel Llên Natur. Dywedodd fod Sian Bowen a Gareth Wyn Jones wrthi'n cael amcanbris ar gyfer y gwaith printio.

Cytunwyd y byddai HMJ yn archebu lle yn y babell Cymdeithasau ar gyfer darlith y Gymdeithas (**pwnt gweithredu**).

Dywedodd Hywel Madog ei fod wedi trefnu cwrdd ag Elin Rhys yn yr wythnos ddilynol gan obeithio cael caniatâd i'r Naturiaethwr gyhoeddi'r holl geisiadau yng nghystadlaeth y Gymdeithas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn hytrach na chael mynediad at y cais buddugol yn unig. Tynnodd y Cadeirydd sylw bod gwobr o £200 ar gael ac anogodd yr aelodau i gystadlu.

Dywedodd Hywel Madog ei fod yn bwriadu cysylltu eto ag Iwan Matthews, o Goleg Cenedlaethol Cymru, yn dilyn ei gysylltiad rhagarweiniol y llynedd (**pwnt gweithredu**).

iv) Is-bwyllgor Llên Natur (gweler Adroddiadau)

Adroddodd Duncan Brown fod Cymuned Llên Natur ar Weplyfr yn mynd rhagddo, gyda 7.9k o ddilynwyr.

Dywedodd bod diddordeb yn y bwletin "Glas" yn cynyddu a bod gwaith yn mynd ymlaen ar rifyn 217.

Esboniodd Duncan fod paratoi erthyglau thematig ar "Dyddiadur Owen Edwards 1820-27" i'w cyhoeddi yn y Naturiaethwr yn dasg enfawr. Dywedodd fod Twm Elias wedi gorffen erthygl ynglŷn ag amaeth y cyfnod a bod Hywel Madog yn gweithio ar eitem am dechnoleg. Dywedodd Dafydd Lewis fod rhai erthyglau'n hir a byddant yn ymddangos mewn dwy neu dair rhan.

Dywedodd Duncan y byddai'n cynnal cyfarfod gyda'r cwmni WiSS ar 20^{fed} Chwefror i drafod lawnsio fersiwn newydd o'r wefan a fydd yn defnyddio'r system Wagtail.

Adroddodd fod llawer o ddefnydd o'r Bywiadur, er enghraifft gan gyfieithwyr, a nodwyd bod angen ychydig o waith cywiro.

Dywedodd Duncan ei fod mewn cysylltiad â John Griffith ynglŷn â chysoni ychydig o enwau ar blanhigion yn Pl@ntNet, enwau Lladin gan mwyaf.

Awgrymodd y dylai Llên Natur a Chymdeithas Edward Llwyd godi'u proffil ynglŷn â'r argyfwng hinsawdd. Gofynnodd sêl bendith y PG i geisio sefydlu fforwm rhwng amaethwyr a chadwraethwyr gyda'r bwriad o bontio rhyngddynt. Cytunwyd drwy ddangos dwylo.

v) Trefnyddion Gweithgareddau

Trafododd John Griffith agor teithiau Gŵyl y Gororau i aelodau dibreswyl gan fod ambell aelod wedi mynegi diddordeb. Dywedodd fod y daith drwy Amwythig ar y Sadwrn yn anaddas i aelodau ychwanegol oherwydd y traffig yn y dref. Esboniodd efallai na fyddai'n ddymunol agor rhai o'r teithiau eraill oherwydd anawsterau rheoli grŵp mawr a chymhlethdodau'n gysylltiedig â'r bws. Dywedodd ei fod yn gobeithio agor teithiau "Bro Ann Griffiths", "Croesoswallt Edward Llwyd" a "Dyffryn Ceiriog". Ni chodwyd gwrthwynebiad a gadawyd y mater yn nwylo John.

Dywedodd John y byddai erthygl am y daith i Lydaw yn 2027 a ffurflen gais yng Nghylchlythyr y Gwanwyn. Diolchodd i Dominig Kervegant am ei waith yn cynllunio'r teithiau.

Esboniodd ei fod ef a hefyd Jackie Willmington (gweinyddwraig y grŵp) yn dymuno ymddiswyddo o'r Grŵp Trefnu Gwyliau ar ôl taith Llydaw. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd aelodau o'r PG â diddordeb ond nid chafwyd gwirfoddolwyr felly penderfynwyd apelio yn y Cylchlythyr (pwynt gweithredu).

Dywedodd Hywel Madog ei fod yn gweithio'n llwyddiannus bellach gyda Dawi Griffiths a Meirion a Nia Jones wrth drefnu gweithgareddau yn y gogledd orllewin. Esboniodd eu bod yn defnyddio Google Drive wrth drefnu'r rhaglen a dywedodd fod yr arweinwyr wedi ymgymryd â theithiau ar gyfer bron gweddill y flwyddyn, er nad oedd yr holl fanylion ar gael eto. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu gwaith.

Dywedodd John Griffith ei fod yn dymuno camu'n ôl o drefnu 4/4 Mallwyd gan ddweud ei bod yn swydd weddol syml gyda'r rhan fwyaf o'r trefniadau yn eu lle yn barod. Esboniodd y byddai angen derbyn manylion y pedair taith oddi wrth yr arweinydd, Arfon Hughes, a chydlynu gyda Hywel Madog a'i dîm a hefyd Golygydd y Cylchlythyr er mwyn comisiynu taflenni a phoster ar gyfer y stondin yn yr Eisteddfod.

Adroddodd fod tua 3,000 o enwau Cymraeg ar restr Pl@ntNet bellach gyda thua 130 i'w cysoni.

Dywedodd John ei fod bron wedi cwblhau'r gwaith o Gymreigio'r ap Merlin ei hun a'i fod wedi cyfieithu tua 50 o'r 450 enw.

Dywedodd y Cadeirydd fod y ddau ap yn adnoddau gwerthfawr a'i bod yn edrych ymlaen at weld enwau Cymraeg yn Merlin. Awgrymodd Hywel Madog hyrwyddo'r gwaith y tu allan i'r Gymdeithas, efallai yn y byd addysg. Cynigiodd Duncan gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Diolchodd y Cadeirydd i John am ei waith.

Dywedodd Gareth Wyn Jones y byddai rhanbarth y De a'r Canolbarth yn dathlu Gŵyl Dewi gyda thaith faes yn Nhregaron a chawl wedyn yn y Clwb Bowlio. Tynnodd sylw y byddai taith yn ardal

Machynlleth ar 4^{ydd} Ebrill yn addas at aelodau o dde Meirionydd. Dywedodd fod ambell fwllch yn y rhaglen a'i fod yn bwriadu cysylltu â rhai o'r arweinwyr selog.

vi) Golygydd y Cylchlythyr (gweler Adroddiadau)

Dywedodd Gwyn Roberts y byddai Cylchlythyr Gwanwyn 2026 braidd yn hwyr oherwydd bod cymhlethdodau technegol wedi achosi diflaniad sawl erthygl ac ar ôl datrys y broblem nad oedd y dylunydd ar gael. Esboniodd ei fod wedi cyflwyno trefn gweithio newydd er mwyn osgoi'r fath broblemau yn y dyfodol.

vii) Golygydd y Naturiaethwr

Dywedodd Dafydd Lewis fod angen tipyn o waith ar ddwy erthygl i'r rhifyn nesaf ond ei fod bellach yn barod i'r dylunydd dychwelyd o'i wyliau.

Diolchodd y Cadeirydd i Olygydd y Naturiaethwr ac i banel golygu'r Cylchlythyr am eu gwaith gan ddweud ei bod yn edrych ymlaen bob tro at dderbyn y cylchgronau.

viii) Dysgwyr (gweler Adroddiadau)

Soniodd Shelagh Fishlock am y Gystadleuaeth i Ddysgwyr gan ddweud ei bod wedi derbyn dau gais lefel Sylfaen ac un gan ddysgwr profiadol. Dywedodd fod y manylion wedi mynd at bob tiwtor a gan fod tua dau fis cyn y dyddiad cau ei bod yn gobeithio derbyn mwy o geisiadau.

Trafodwyd y gwobrau ychwanegol eleni ar gyfer lefelau Sylfaen (Llyfr Blodau Iolo Williams), canolradd (tocyn llyfr £25) ac Uwch (£50 neu docyn llyfr). Dywedwyd y byddai rhaid prynu copi o lyfr Iolo Williams. Awgrymwyd cynnig dewis o docyn llyfr yn ei le.

Tynnodd Hywel Madog sylw bod copïau o "Parchedig yr Adar" a "Fan Hyn Fan 'Co" ar gael i'w cynnig yn wobrau. Ychwanegodd Iwan Roberts fod copi o "Blodau Cymru" (gwerth £40) ganddo, a roddwyd i'r Gymdeithas gan Goronwy Wynne, ac awgrymodd Dafydd Lewis ei gynnig yn ddewis i enillydd lefel Uwch. Awgrymodd Hywel Madog ystyried cynnig gwobr arbennig petai dysgwr yn ennill ar sawl lefel dros gyfnod o flynyddoedd.

Gofynnodd Shelagh am wirfoddolwr i roi cymorth i Dafydd gyda beirniadu. Awgrymwyd Elen Owen neu Hywel Madog. Gadawyd iddynt ystyried y mater.

Dywedodd Shelagh y cynhelir seremoni i gyflwyno tystysgrifau i'r dysgwyr buddugol ar y stondin ar ddydd Mercher yr Eisteddfod. Awgrymwyd ei chynnal am hanner dydd os na fydd gwrthdrawiad â darlith y Gymdeithas. Awgrymwyd darparu byrbrydau ac o bosibl dangos gwaith yr enillwyr ar y stondin. Dywedodd Shelagh y byddai'n cymryd rhan yn y sesiwn "3 Lle" ym Maes D am 2.30.

Diolchodd y Cadeirydd i Shelagh a Dafydd.

6. SWYDDI GWAG

Adroddwyd na chafwyd Is-gadeirydd er i'r Cadeirydd sôn am y swydd yn ei llythyr yn y Cylchlythyr. Awgrymwyd rhoi hysbyseb amlwg yn rhifyn yr Eisteddfod (**pwynt gweithredu**). Cytunwyd hefyd i siarad ag aelodau wrth gerdded.

Dywedodd John Griffith y byddai rhaid penodi Trefnydd Gwyliau mewn pryd i drefnu Gŵyl 2028 a chyhoeddi'r manylion yng Nghylchlythyr Eisteddfod 2027. Penderfynwyd apelio yn y Cylchlythyr os nad oedd gwirfoddolwr o'r PG (**pwynt gweithredu**). Awgrymodd Jackie benodi Trefnydd yn gyntaf a gofyn wedyn a oedd y Trefnydd yn dymuno cael cymorth gweinyddwr.

7. DIWEDDARU'R WEFAN A'R AP

Dywedodd Hywel Madog fod llawer o hen ddeunydd ar y wefan a bod angen adolygiad llwyr. Esboniodd fod bron dim defnydd o rai tudalennau a bod angen creu "map" o'r safle.

Dywedodd fod rhaid addasu'r wefan ac ap y Gymdeithas at ddiflaniad Street Map yn y Flwyddyn Newydd drwy gysylltu cyfeirnodau map yn y rhaglen teithiau at OS Explore. Wedyn roedd rhaid dadwneud y newidiadau ar ôl i Street Map ailymddangos. Esboniodd Rhisiart ap Gwilym fod pob newid i'r linc ar y wefan yn golygu newid yr ap ac oedi wrth i Google ei gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.

Diolchodd y Cadeirydd i Hywel Madog a Rhisiart gan ddweud bod yr ap yn ddefnyddiol iawn.

8. CYFARFOD BLYNYDDOL 2026

Dywedodd y Cadeirydd fod Elizabeth Roberts wedi archebu ystafell gyfarfod yn Neuadd Rhydypennau ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ar 3^{ydd} Hydref. Trafodwyd denu aelodau a phwysleisiodd Hywel Madog y dylid cynnig rhaglen na fyddai'n dibynnu ar y tywydd. Awgrymwyd dilyn patrwm rhaglen cynhadledd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Soniwyd am gynnwys eitem am waith y Lolfa, sgwrs ynglŷn ag adar gan Daniel Jenkins Jones a sgwrs ynglŷn ag afancod Gwarchodfa Natur Cors Dyfi. Awgrymwyd gofyn i aelodau ddod â phecyn bwyd i ginio a darparu te.

Trafodwyd trefnu i aelodau allu ymuno o bell ond dywedwyd nad oedd y cyfarpar angenrheidiol ar gael yn y Neuadd.

Cynigiodd y Cadeirydd cwblhau'r trefniadau yng Nghyfarfod mis Mai.

9. CYSYLLTIADAU TRWY'R WEFAN (gweler Adroddiadau)

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd grynodedb o'r ymholiadau a dderbyniwyd trwy'r ffurflen gyswllt ar y wefan.

10. GOHEBIAETH dim

11. UNRHYW FATER ARALL dim

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

21^{ain} Mai (i'w gynnal yn rhithiol)

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r PG am gymryd rhan yn y drafodaeth a chodi pwyntiau diddorol.